**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 MAI 2023**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE** |
| **Pwnc:** | **Diwrnod dathlu y daith ddiwygio** |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor am y bwriad i gynnal 'Marchnad Cwricwlwm i Gymru' i arweinwyr ysgolion y rhanbarth ar 22 Mehefin 2023 yn Venue Cymru, Llandudno er mwyn dathlu y daith ddiwygio hyd yma.

**2.0 Cefndir**

2.1 Bwriad y digwyddiad yw rhoi cyfle i rannu datblygiadau Cwricwlwm i Gymru (CiG) a dathlu llwyddiannau, gyda'r nod o ddarparu cyfle i rannu arferion sy'n dod i'r amlwg ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad.

2.2 Bydd cyfle i dreulio diwrnod yn gweld a gwrando ar ysgolion yn rhannu eu profiadau o'r daith ddiwygio hyd yma trwy weithdai a stondinau marchnad. Yn ogystal bydd cyfle i wrando ar arbenigwyr yn rhannu o'u profiadau ac yn disgrifio'r gefnlen rhyngwladol.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Bydd cyfle i wrando ar gyflwyniadau gan siaradwyr gwadd o'r radd flaenaf yn ystod y diwrnod a chael trafodaethau gyda chydweithwyr. Ymhlith y siaradwyr gwadd mae'r Athro Graham Donaldson, Cyfarwyddwr Addysg a'r Iaith Gymraeg – Llywodraeth Cymru, a DARPL (Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol).

3.2 Bydd cynrychiolwyr yn gallu mynychu nifer o weithdai a stondinau, neu, gall cynrychiolwyr ddewis i fynychu sesiwn gan siaradwyr ar y prif lwyfan.

3.3 Bydd y gweithdai yn gyfle i wrando ar ymarferwyr yn rhannu eu profiadau, gyda chyflwyniadau yn rhoi trosolwg o:

- waith cydweithio aelodau'r Rhwydwaith Rhanbarthol CiG
- sut mae ysgolion penodol wedi ymateb i CiG
- waith cydweithio ysgolion mewn ymateb i CiG

3.4 Bydd yr ystod eang o weithdai yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Iechyd a Lles
- Dyniaethau
- Celfyddydau Mynegiannol
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Mathemateg a Rhifedd
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Dylunio Cwricwlwm
- Asesu
- Pontio
- Elfennau Mandadol a Statudol
- Y Gymraeg 2050

3.5 Bydd yna hefyd hyd at 24 stondin marchnad i rannu arferion sy'n dod i'r amlwg mewn dull llai ffurfiol er mwyn rannu syniadau, arferion a negeseuon. Bydd cyfle i drawstoriad eang o rhanddeiliaid gyfrannu at arlwy'r diwrnod.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid allweddol arferol.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5 o'r adroddiad yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad, a bydd y digwyddiad yn cael ei ariannu o fewn eu hadnoddau ariannol presennol. Felly, nid oes gennyf sylwadau i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.